

Cyngor Dinas Casnewydd: Gwasanaethau Addysg

Fforwm Derbyniadau Ysgol

Cofnodion y Cyfarfod



Dyddiad: 8 Tachwedd 2022

Yn bresennol: Aelod Etholedig CDC (y Cadeirydd)

Pennaeth Addysg Cynorthwyol CDC (Adnoddau)
Rheolwr Derbyn i Ysgolion CDC
Yr Esgobaeth Gatholig
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr
Cynrychiolydd Plant sy'n Derbyn Gofal (dim pleidlais)
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir
Cynrychiolydd Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

Clerc y Fforwm

Ymddiheuriadau:

Cynrychiolydd Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr
Ymgynghorydd ar gyfer Ymddygiad ac Awtistiaeth (dim pleidlais)
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol (EY)
Pennaeth Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent
Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol a rhoddwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2022

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod yn rhai gwir a chywir.

10. Polisi mynediad teg - cadarnhaodd JL fod y Penaethiaid Uwchradd bellach wedi mabwysiadu hyn fel gweithdrefn safonol o fis Tachwedd 2022

3. Materion yn Codi

4. Rownd Dderbyn Flynyddol

Fe wnaeth JL ddiweddarau'r Fforwm ar y sefyllfa ddiweddaraf. Nodwyd pwyntiau allweddol ychwanegol fel a ganlyn:

Derbyn i ysgol feithrin:

- Agorodd y ffenestr derbyn ar 7 Gorffennaf 2022
- Y dyddiad cau oedd 5pm ar 15 Medi 2022
- Y dyddiad cynnig yw 1 Rhagfyr 2022

Derbyn i Ddosbarth Derbyn:

- Agorodd y ffenestr derbyn ar 2 Tachwedd 2022
- Y dyddiad cau yw 5pm ar 11 Ionawr 2023
- Y dyddiad cynnig yw 17 Ebrill 2023*

Mynediad i'r ysgol uwchradd:

- Agorodd y ffenestr derbyn ar 21 Medi 2022
- Y dyddiad cau yw 5pm ar 23 Tachwedd 2022
- Y dyddiad cynnig yw 1 Mawrth 2023*

* Mae'r rhain yn ddyddiadau cynnig cyffredin a bennir gan Lywodraeth Cymru

5. Derbyniadau yn ystod y Flwyddyn

Adroddodd JL ar y sefyllfa ddiweddaraf yn ystod y flwyddyn gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol canlynol o ddadansoddiad Tymor y Gwanwyn.

Pwyntiau allweddol:

- 635 o geisiadau wedi'u derbyn yn ystod tymor yr haf 2022 (cyfartaledd 492). Daw hyn â chyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd y flwyddyn academaidd hon i 1832 (cyfartaledd y flwyddyn 1516).
- Mae tua hanner (41%) o'r ceisiadau'n parhau i gael eu gwneud oherwydd symud i'r ddinas; Yn 2021/22, derbyniwyd 748 o geisiadau a oherwydd symud i'r ddinas.
- Bodlonwyd 55% o'r dewisiadau cyntaf, sy'n dangos cyd-destun y ddinas (nifer fawr o geisiadau yn cael eu derbyn yn erbyn capasiti cyfyngedig mewn rhai ardaloedd).
- Proseswyd 77% o'r ceisiadau o fewn amserlenni Llywodraeth Cymru, gyda rhesymau dilys wedi'u cofnodi ar gyfer y rheiny a aeth heibio'r dyddiad cau.
- Ar 17 Hydref, roedd y Cyngor yn cadw'r lefel ganlynol o leoedd gwag (y lefel optimwm a argymhellir gan LIC yw 10%):
 - Lleoedd ysgol gynradd Saesneg - 9%
 - Lleoedd ysgol gynradd Cymraeg - 17%
 - Lleoedd ysgol uwchradd Saesneg - 5%
 - Lleoedd ysgol uwchradd Cymraeg - 34%
 - O fewn y clwstwr Catholig, mae 1% o leoedd ysgol gynradd yn wag a 0% o leoedd ysgol uwchradd yn wag.

DW - A yw ysgolion Catholig yn casglu data ar ganran y teuluoedd Catholig sy'n gwneud cais am ysgolion Catholig?

AR - Mae cyfrifiad blynyddol ledled Cymru a Lloegr (fel CYBLD) i bob ysgol, a fydd yn darparu tueddiad blynyddol.

Mae ysgolion Catholig Casnewydd, yn cydlynu eu derbyniadau i geisio dargyfeirio plentyn i ysgol Gatholig arall os yw ei ysgol dalgylch Catholig yn llawn.

PB - O ran canrannau plant Catholig sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Sant Joseff, mae'r Flwyddyn 7 gyfredol bellach ar 75%, cynnydd o 55% o'r blynyddoedd blaenorol. Gwelwyd cynnydd graddol gydol y blynyddoedd.

Oherwydd hyn rydym wedi bod yn gwrthod rhai plant / brodyr a chwiorydd nad ydynt yn blant Catholig o'n hysgolion cynradd Catholig bwydo yng Nghasnewydd, oherwydd y galw ar Sant Joseff.

Oherwydd y newid yn ein meini prawf gordanystrifio, nid ydym bellach yn derbyn disgyblion Catholig sy'n dod o'r tu allan i Gasnewydd, heblaw am dde Sir Fynwy. Y newyddion da o ran hyn yw y gall y plant Catholig sy'n mynd i'n hysgolion bwydo ddod i Sant Joseff.

Cawsom 20 apêl drwy'r Haf, 4 ym mis Hydref. Cafodd pob un ohonynt eu gwrthod gan y Panel Apeliadau. O'r 25 o geisiadau Trosglwyddo yn ystod y Flwyddyn, rydym wedi derbyn 3 o'r rheiny ond roedden nhw i gyd yn Gatholigion.

Gofynnodd y Cadeirydd, a oes gennych chi dal gapasiti heb lawer o leoedd dros ben? Beth sy'n digwydd os yw teulu Catholig yn symud i Gasnewydd, beth yw eu hopsiynau?

Atebodd PB - blynyddoedd 7.8.9.10.11. Mae grwpiau blwyddyn wedi cyrraedd eu capasiti neu maen nhw dros eu capasiti. Dros gapasiti oherwydd apeliadau neu symudiadau a reolir. Y sefyllfa yw y byddai'r teulu hwn yn cael ei wrthod. Yna bydd paneli annibynnol yn penderfynu a oes gan y rhieni ddigon o sail i wrthdroi ein penderfyniad.

JB – Gofynnodd JL os taw'r sefyllfa dal i fod yw rhaniad rhwng y dwyrain a'r gorllewin, lle mae mwy o leoedd ar gael ar ochr ddwyreiniol Casnewydd?

Atebodd JL - ie, nid yw hyn wedi newid. Mae'r ysgolion cynradd yng nghlystyrau Basaleg a John Frost bron yn llawn neu wedi cyrraedd eu capasiti, gan arwain at gynnig lleoedd amgen yn yr ysgolion nesaf sydd ar gael sy'n ymestyn i ochr ddwyreiniol Casnewydd.

Gofynnodd VC, yn dilyn cwestiwn JB, os yw lleoedd yn llawn yn y gorllewin ond nad yw ysgolion y dwyrain yn llawn, a ydym yn caniatáu i ysgolion fynd dros y NDC yn y gorllewin i leihau costau trafndiaeth cael plant i'r dwyrain?

Atebodd JL, os gwrthodir lle i unrhyw un, mae ganddo hawl i apelio a byddwn yn ceisio pennu lle mewn ysgol amgen, naill ai un a ddewiswyd gan y rhiant neu os mai dyma'r ysgol agosaf sydd ar gael. Os yw'r ysgol dros 2 filltir ar gyfer lle cynradd neu 3 milltir ar gyfer lle uwchradd, byddai ganddo hawl i gael trafndiaeth.

Os na fydd yn derbyn yr ysgol nesaf agosaf sydd ar gael a'i fod wedi colli ei apêl, yna bydd yn cael ei gyfeirio i'r adran Lles Addysg. Ni fyddem yn derbyn dros y NDC oni bai ei fod yn llwyddiannus yn ei apêl.

6. Diweddariad ar Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir

Dywedodd AR wrth y Fforwm bod gan Gaerdydd bellach system derbyniadau cydlynol Awdurdod Lleol gyda'r rhan fwyaf o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

7. Hyfforddiant Aelodaeth: Y Cod Derbyn i Ysgolion Statudol

Cyflwyniad DW ar y Cod Derbyn i Ysgolion.

Cyflwyniad byr i sicrhau bod gan bob aelod yr un lefel o ddealltwriaeth gan gynnig y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau.

Darllenodd DW drwy'r cyflwyniad

Cadeirydd – Holodd ynghylch Trafndiaeth o'r Cartref i'r Ysgol.

DW – Eglurodd gymhwysedd trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol: Meini prawf pellter, 2 filltir ar gyfer cynradd a 3 milltir ar gyfer Uwchradd.

Mae gan bob plentyn 3 ysgol dalgylch, Cymraeg, Saesneg a Gwirfoddol a Gynorthwyir.

Gofynnodd DW a oedd unrhyw feysydd eraill y byddai aelodau'n hoffi cael mwy o wybodaeth amdanynt.

AR – Gofynnodd am gyflwyniad ar y Cod ADY.

Bydd DW yn siarad â NK a KD.

8. Ymgynghoriad ar Drefniadau Derbyn 2024

JL - Wrthi'n gwneud newidiadau munud olaf.

Yr unig newidiadau sy'n cael eu cynnig yw,

- Tacluso'r geiriad o ran ADY. Ddim yn newid y polisi, dim ond rhoi esboniad cliriach.
- Gall hefyd roi eglurhad cliriach o dderbyniadau y tu allan i'r grŵp blwyddyn cronolegol. OGYO. Ddim yn newid polisi, dim ond egluro'r geiriad.

Dim newidiadau eraill i'r trefniadau ar gyfer 2024. Bydd copïau drafft yn cael eu dosbarthu i'r holl aelodau cyn gynted ag y bydd yn barod.

Anelu at gyhoeddi'r Ddogfen Ymgynghori i'r cyhoedd ddechrau Ionawr 2023, i gael casgliad erbyn diwedd Chwefror.

Gofynnodd y Cynghorydd AN i'r aelodau a oedden nhw i gyd yn hapus gyda hynny.

PB – Nid yw Sant Joseff yn gweld unrhyw newidiadau mawr i'w trefniadau ond bydd yn edrych ar y cynigion y bydd JL yn eu gwneud ac yn gweld a oes unrhyw rai y gellir eu cyflwyno.

9. Adroddiad Blynyddol

Rhannodd JL yr Adroddiad Blynyddol Fforwm Derbyniadau 2021/2022 diweddaraf a darllen drwyddo, gan esbonio pob adran.

Gofynnodd JL a oedd unrhyw gwestiynau ar ôl pob adran.

Bydd JL yn dosbarthu'r adroddiad hwn ar gyfer unrhyw un sydd am ychwanegu ato neu ei gywiro a bydd yn cyflwyno'r adroddiad gorffenedig i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Tachwedd 2022.

Gofynnodd AR gwestiwn ar apeliadau - a fyddai modd ychwanegu brawddeg ynglŷn â'r her gydag apeliadau rhithwir o dan rheoliadau apeliadau?

Bydd JL yn cynnwys hyn yn yr adroddiad.

JL- Mae Casnewydd wedi rhoi ychydig o ddata i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar ynglŷn â'r nifer o apeliadau a gynhaliwyd a faint gafodd eu cynnal mewn modd rhithwir ac a oedd yn llwyddiannus.

Dadl sy'n parhau, roedd y rheoliadau dros dro a gafodd eu cyflwyno yn ystod y pandemig yn caniatáu i ni gynnal apeliadau rhithwir. Cyhoeddodd y Llywodraeth bod hyn yn dod i ben ar 30 Medi a'n bod ni'n dychwelyd i'r rheoliadau gwreiddiol, ond nid oedd unrhyw sôn am apeliadau rhithwir.

Fodd bynnag, ledled Cymru mae awydd i barhau ag apeliadau rhithwir ond mae ALLau yn cael trafferth dod i gytundeb cyffredin oherwydd bod LIC wedi cadarnhau bod rhaid i bob awdurdod lleol wneud ei ddehongliad ei hun o'r rheoliadau er mwyn penderfynu a yw apeliadau rhithwir yn cydymffurfio. Mae tîm cyfreithiol Casnewydd wedi cadarnhau yn ddiweddar ein bod yn bwriadu cynnig apeliadau hybrid ac mae hynny'n golygu y gall rhieni barhau i gael cynnig apêl rithwir drwy Teams/Zoom neu os oes angen iddynt, gallant gael apêl wyneb yn wyneb / cyflwyniad ysgrifenedig.

Mae hyn yn golygu na fydd y panel yn gallu bod yn rhithwir drwy'r amser oherwydd os yw'r rhiant eisiau apêl wyneb yn wyneb, rhaid i'r panel ddod i mewn.

Mae sawl ALI arall wedi mabwysiadu'r un drefn, ond ar hyn o bryd does dim cysondeb ar draws Cymru.

Cadeirydd - Os yw rhiant yn mynnu cael apêl wyneb yn wyneb, yna rhaid i bob aelod o'r panel apeliadau fynychu?

JL – Y rhan fwyaf o aelodau'r panel apeliadau, nid pob un. Rhaid i'r clerc fod yn bresennol.

Cadeirydd - Pryd all pobl edrych ar yr Adroddiad Blynyddol a gwneud sylwadau arno?

JL – hyd at 29 Tachwedd. Bydd y dyddiad yma yn yr e-bost.

10. Rhaglen ad-drefnu

Dim byd i'w adrodd ar y rhaglen ar hyn o bryd. Edrych i lansio cynnig newydd ddiwedd Tachwedd.

Bydd hyn yn edrych ar gynyddu cyfleusterau ADY arbenigol yn y sector Uwchradd o fis Medi nesaf.

Mwy o fanylion i ddod. Unwaith y bydd y cynnig yn fyw, gallaf rannu copi o'r dogfennau a'r wybodaeth gyda chi i gyd.

11. Unrhyw fater arall

Dim materion eraill

12. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol

Tymor yr Haf 28 Mehefin 2023 Dydd Mercher 2pm

Tymor yr Hydref Tachwedd 2023

